9. In contrast, we see area deprivation as the result of complex social and economic changes. Long-term changes in the economy and labour market, such as the decline of manufacturing and the loss of semi- and unskilled jobs, mean some people face significant problems finding secure, reasonably-paid work. At the same time, the housing market and housing allocation system tend to concentrate people facing the greatest disadvantage into particular small areas, for example where housing is relatively cheap and / or unpopular. It is no accident that the largest number of Communities First areas are found in the parts of Wales that have experienced the greatest economic shocks in recent decades.

10. It is difficult for the Communities First programme – like all area-based programmes – to shape these big social and economic forces, such as wage rates, whether a local employer makes people redundant, or local rents to name but a few. The task is all the harder because of the relatively weak relationship in the past between economic development priorities and Communities First.

11. Even when Communities First is able to change the characteristics of individuals, there is no guarantee that that will change the characteristics of the area. As the 2015 evaluation of Communities First concluded:

*The Programme ... is based on the key assumption that ... changing individual-level outcomes ... will significantly impact on area-level characteristics. The testing of this assumption would be a key aim of any future outcomes evaluation.*⁶

12. For example, an individual who has benefitted from Communities First's help to find work may move out of the area when he or she gets a job, only to be replaced by an unemployed person moving into the area. While the out-going individual's circumstances have improved, the area's characteristics remain unchanged. The opposite may occur if an area is gentrified, with less deprived people moving into an area apparently improving its characteristics without the circumstances of deprived people changing at all.

⁵ Welsh Government Social Research, (2015), Communities First: A Process Evaluation. Para 7.23

⁶ Ibid. Para 7.5

Delivery

13. The second issue is delivery. Some variation is inevitable in a programme covering so many areas in a wide range of circumstances. We recognise that there is a challenge to combine local flexibility and responsiveness with an all-Wales strategic direction and framework. Nevertheless, successive evaluations have pointed out that while the programme is working well in some areas, in others it is not performing as well as might be expected. For example the 2015 evaluation noted that ‘some significant challenges do remain for the effective delivery and monitoring of the Programme’.⁷ Even on the fundamental requirement of community engagement, after 14 years the evaluators found that ‘genuine community participation is not always being achieved.’⁸ This finding was by no means new – the 2011 the evaluation concluded the programme was delivering benefits in ‘many, though by no means all, of the supported communities.’⁹
14. To conclude, where Communities First has worked well it has achieved a wide range of mostly soft outcomes that benefit individuals, but even in these areas the design of the programme means that it is very difficult to achieve area-level change. The programme has worked less well in some areas, struggling to achieve and demonstrate impact either for individuals or the areas concerned.

How local authorities will decide which projects continue to receive funding after June 2017

15. The Welsh Government has a key role to play in providing a clear strategic direction and robust guidance to local authorities. Drawing from the evidence of effective area-based initiatives elsewhere,¹⁰ the underlying principles should be:
- a. the area should experience significant socio-economic disadvantage;
 - b. the area should be large enough for economies of scale but small enough for resources to be targeted, with some analysts suggesting 10,000 is about right;
 - c. the boundaries of the area to be supported should be meaningful to the community as well as coinciding with those of other agencies;
 - d. the focus within the area should be on those facing multiple disadvantage.
 - e. skilled project staff and community leaders are essential to success;

⁷ Ibid. Para 7.4

⁸ Ibid. Para 7.18

⁹ Welsh Government Social Research (2011), Research Summary: The Evaluation of Communities First. Para 22.3

¹⁰ Department for Communities and Local Government (2010), The New Deal for Communities Experience: A Final Assessment - The New Deal for Communities Evaluation: Final Report – Volume 7

- f. expected outcomes should be realistic and be relevant to the intervention, for example support for individuals should be measured in terms of change in individuals' outcomes;
- g. projects should have a track record of achieving positive outcomes;
- h. the local authority and other agencies should be expected to refocus their mainstream programmes – including their economic development and regeneration programmes - on the area in question; and
- i. outcomes and impact should be monitored effectively.

16. The opportunity should be taken to replace the narrow, individual focus of the current Communities First themes with a broader, evidence-based approach. The work we have undertaken with the Joseph Rowntree Foundation¹¹ provides a framework for suitable local action, ranging from stimulating the creation of jobs to raising educational attainment levels and provision of quality careers advice and guidance in schools.

17. There should, in addition, be scope for innovation. This might include a change in emphasis away from individual 'deficits' towards those based on assets, such as building community wealth, creating a local 'circular' or sharing economy, and local intermediate labour markets.

How different poverty reduction programmes will change as a result of the end of Communities First.

18. Programmes such as Flying Start and Communities for Work will need to be reframed as they have operated within the framework of Communities First. At this stage we do not have further suggestions to make.

¹¹ Joseph Rowntree Foundation, (2016), Prosperity without Poverty: A Framework for Action in Wales.

Cymunedau yn Gyntaf – trafodaeth â staff Cymunedau yn Gyntaf Casnewydd

Dyddiad: 23 Mawrth 2017

Sylwadau rhagarweiniol

01. Rhoddodd staff Cyngor Casnewydd olwg cyffredinol ar weithgareddau Cymunedau yn Gyntaf a'r datblygiadau ers i Ysgrifennydd y Cabinet gyhoeddi y bydd Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn dod i ben. Dyma rai o'r pwyntiau allweddol:

- Mae Cymunedau yn Gyntaf wedi gweithio gyda 12,500 o bobl drwy Gasnewydd cyfan yn ystod y flwyddyn ddiwethaf;
- Mae'r rhaglen wedi ymdrin â'r problemau sy'n wynebu cymunedau ar lefel ymarferol a strategol;
- Mae'r rhaglen wedi bod yn allweddol i ddatblygiad Casnewydd;
- O ganlyniad i'r cyhoeddiad, bydd y gyllideb yn gostwng yn sylweddol (rhwng 30–45%) ac, ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn cynnal trafodaethau â chontractwyr ac yn bwrw ymlaen â rhaglen diswyddo gwirfoddol. Caiff y penderfyniad i ddod â'r rhaglen i ben effaith ehangach ar y gyllideb, er enghraifft y costau ychwanegol sydd ynghlwm wrth gynlluniau diswyddo gwirfoddol neu orfodol;
- Mae'n dal yn aneglur beth yw amcanion Llywodraeth Cymru ac, felly, sut y dylid datblygu unrhyw rhaglenni newydd. Er bod y cynlluniau i greu 'cymunedau cryf' yn rhoi rhyw awgrym, mae negeseuon cymysg iawn yn dod o gyfeiriad Llywodraeth Cymru;
- Mae'r amserlen ar gyfer datblygu cynlluniau newydd yn heriol iawn;
- Mae'r modd y cyhoeddwyd y penderfyniad wedi'i feirniadu. Clywodd y rhan fwyaf o'r staff am y penderfyniad ar y newyddion gyda'r nos, a phrin iawn oedd y wybodaeth a gafodd y Cyngor i helpu staff i ddeall goblygiadau'r cyhoeddiad.

Trafodaeth â staff

02. Tynnodd staff sylw at amrywiaeth o faterion, gan gynnwys:

Y broses ymgynghori

- Ni chynhaliwyd proses ymgynghori lawn a phriodol ac nid oedd yr ymgynghoriad ar-lein yn ystyrlon.
- Ni chafwyd trafodaeth â'r cymunedau am yr hyn sy'n bwysig iddynt.

Meithrin perthynas â chymunedau

- Llwyddwyd i feithrin perthynas â chymunedau dros y tair blynedd ar ddeg diwethaf a dim ond yn awr rydym wedi ennyn ymddiriedaeth lawn rai ohonynt. Bydd hyn yn diflannu.
- Mae cymunedau'n ymddiried yn staff Cymunedau yn Gyntaf, ac yn eu parchu. Wrth i'r berthynas rhyngddynt ddatblygu, yn lle cyfeirio pobl at wasanaethau (ee y Clwb Swyddi) cânt eu cyfeirio at bobl y maent yn eu hadnabod.
- Cafwyd enghreifftiau o staff Cymunedau yn Gyntaf yn mynd i gynadleddau gwasanaethau cymdeithasol, a nhw oedd yr unig rai a oedd yn adnabod y teulu dan sylw.
- Gall Cymunedau yn Gyntaf ymateb yn gynt i argyfwng a chânt eu hystyried yn llai bygythiol na gwasanaethau mwy ffurfiol.
- Dim ond mewn ardal ddaearyddol fach y gellir meithrin cysylltiadau tebyg. Awgrymwyd bod angen un tîm ar gyfer pob stad.
- Mae pobl yn y cymunedau wedi datblygu'n bersonol ac yn gweithio'n awr i Gymunedau yn Gyntaf. Maent yn batrwm ymddwyn i aelodau eraill o'r gymuned.

Addysg

- Mae Cymunedau yn Gyntaf yn pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae wedi bod yn canolbwyntio ar feithrin perthynas ag ysgolion cynradd i helpu disgyblion i symud o'r ysgolion cynradd ac uwchradd.
- Tanlinellwyd natur gylchol y problemau a'r angen i ystyried hyn wrth wneud penderfyniadau am wasanaethau cymorth. Soniwyd am effaith y penderfyniad i leihau cyllid ar gyfer canolfannau atgyfeirio mewnol, sy'n golygu y bydd plant sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n tarfu ar eraill yn mynd yn ôl i'r ystafell ddosbarth ac yn amharu ar allu plant eraill i ddysgu.



- Soniwyd am bwyslais newydd Llywodraeth Cymru ar Brofiadau Niweidiol Plentyndod a phwysigrwyd y 1000 diwrnod cyntaf gan nodi bod Cymunedau yn Gyntaf yn gwneud y gwaith hwn ers blynyddoedd lawer.

Cyflogadwyedd.

- Mae llawer o gleientiaid Cymunedau yn Gyntaf ymhell iawn o fedru ymgymryd â swydd gyflogedig, ac mae angen amser a chymorth cyn y byddant yn barod i gael eu cynorthwyo i ddod o hyd i waith.
- Dywedodd staff sy'n gweithio ar raglenni cyflogadwyedd na fyddent yn gallu gwneud eu gwaith yn effeithiol heb yr holl waith paratoi y bydd eu cydweithwyr yn ei wneud. Ymhlith yr enghreifftiau a roddwyd roedd y 'Prosiect Rhieni' a ddatblygwyd i helpu rhieni i fagu hyder; roedd pawb a gymerodd ran yn y prosiect hwn wedi ymuno â'r rhaglen Cymunedau am Waith. Cyfeiriwyd hefyd at y grŵp i ddynion dros 50 oed a oedd hefyd yn helpu dynion i fagu hyder a meithrin sgiliau cyn eu cyfeirio at raglenni cyflogadwyedd penodol.
- Roedd pryder hefyd ynghylch meini prawf cymhwysedd rhai rhaglenni cyflogadwyedd, gan awgrymu eu bod yn rhy anhyblyg ac, o ganlyniad, nid yw'r cymorth angenrheidiol ar gael i bawb.

Cynhwysiant cymdeithasol

- Drwy Gymunedau yn Gyntaf, llwyddwyd i ddiwallu anghenion penodol y cymunedau amrywiol yng Nghasnewydd. Er enghraifft, llwyddwyd i ymgysylltu â'r gymuned Romani drwy ganolbwyntio ar feithrin perthynas â phobl allweddol yn y gymuned honno.
- Roedd cryn bryder am y ffaith nad oedd yr heddlu i'w gweld yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Amlygwyd effeithiau cam-drin sylweddau a'r problemau cysylltiedig. Bydd staff Cymunedau yn Gyntaf yn aml yn ymdrin yn uniongyrchol ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Cyllid a strwythurau

- Am bob £1 a gaiff ei buddsoddi yng Nghymunedau yn Gyntaf, caiff £4.74 ei arbed.
- Mae angen cyllid mwy hirdymor i ddatblygu cymunedau cryf. Ar y gorau, byddai cyllid yn cael ei ddyrannu am gyfnod o dair blynedd yn unig, ond mae hyn wedi



gostwng i gyllid blynyddol. Er mwyn trechu tlodi, mae angen cyllid mwy cynaliadwy ac mae angen ei gynnig am gyfnodau hirach (ee 10 mlynedd).

- Dull Bywoliaethau Cynaliadwy Oxfam - cafodd y pecyn cymorth hwn ei addasu a'i ddefnyddio'n llwyddiannus ar ystâd Dyffryn, ac mae'n cael ei gyflwyno'n awr drwy Gasnewydd cyfan. Mae'r adroddiad gwerthuso ar gael yma ac mae rhagor o wybodaeth ar gael yma. Gwahoddwyd y Pwyllgor i ymweld ag ystâd Dyffryn i'w helpu i ddeall y gwaith yn well.
- Tanlinellwyd ei bod yn bwysig sicrhau bod rhaglenni'n gydnaws â gilydd a bod angen gweithredu'n fwy cyfannol. Roedd rhai'n pryderu ynghylch dyblygu gwasanaethau gan ddweud bod angen i Arweinwyr Gwasanaethau feddwl yn fwy creadigol a strategol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol.
- Derbyniwyd bod Cymunedau yn Gyntaf wedi methu mewn rhai ardaloedd efallai, ond nid yng Nghasnewydd. Amlygwyd hefyd nad oedd llwyddiant bob amser yn cyd-fynd yn daclus â fframweithiau rheoli perfformiad neu setiau data.

Effaith dod â rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i ben

- Roedd rhywfaint o ddryswch ynglŷn â pham y byddai'r Llywodraeth yn dod â'r rhaglen i ben heb egluro beth y bydd yn ei ddarparu yn ei le.
- Roedd rhai'n pryderu y bydd Casnewydd yn colli staff a'u sgiliau wrth iddynt chwilio am swyddi eraill, a thynnwyd sylw at yr effaith ehangach a gaiff hyn ar Gasnewydd.

"Dydw i ddim yn deall pam nad yw'r hyn a fydd yn digwydd [ar ôl dod â'r rhaglen i ben] yn codi arswyd ar Lywodraeth Cymru."



Cymunedau yn Gyntaf – Ymweliad â Chlwstwr Dwyrain Casnewydd

Dyddiad: 26 Mai

Aelod: John Griffiths AC (Cadeirydd)

Safleoedd yr ymwelwyd â hwy: Moorland a'r Hope Centre

Yn ystod yr ymweliad cyfarfu'r Cadeirydd â'r staff, defnyddwyr y gwasanaeth a gwirfoddolwyr. Trafodwyd amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys; darpariaeth Dechrau'n Deg; trefniadau pontio; y newid i roi mwy o bwyslais ar gynorthwyo pobl i ddod yn fwy cyflogadwy ac enghreifftiau o sut mae darpariaeth Cymunedau yn Gyntaf wedi cael effaith gadarnhaol ar unigolion a theuluoedd.

Effaith y penderfyniad i ddod â'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i ben

- Yng Nghasnewydd, bu gostyngiad o £720,000 yn lefel y cyllid. Mae hyn wedi arwain at gael gwared ar 21 swydd cyfwerth ag amser llawn; gydag 8.5 o staff cyfwerth ag amser llawn yn gadael Cyngor Casnewydd trwy wirfoddoli i gael dileu eu swyddi; a swyddi 6.5 aelod o staff yn cael eu dileu yn Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent. Roedd 6.5 o'r swyddi yn rhai gwag na chawsant eu llenwi.
- Bydd yr hen raglen yn dod i ben gam wrth gam erbyn diwedd mis Mehefin. Mae rhai rhaglenni'n cael eu symud i wasanaethau eraill, er enghraifft bydd y Rhaglen Aspire (sydd â'r nod o adnabod a chefnogi pobl ifanc nad oes ganddynt ddiddordeb mewn addysg) yn symud i'r Gwasanaeth Ieuencid. Bydd Dechrau'n Deg yn cymryd drosodd y ddarpariaeth chwarae.
- Mae wedi bod yn haws trosglwyddo gwasanaethau gan fod y gwasanaethau perthnasol i gyd yn rhan o un Gyfarwyddiaeth (Adfywio) yn yr awdurdod lleol.
- Mae'r awdurdod lleol yn mabwysiadu dull cydweithredol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i gael eu darparu, gan gyd-drefnu gwasanaethau'n well.
- Bu cryn dipyn o ansicrwydd i staff ac mae hyn, yn ogystal â'r diffyg arweiniad, wedi ei gwneud yn anoddach iddynt ddeall beth fydd goblygiadau'r newidiadau.



- Mae prosiectau wedi cael eu trosglwyddo i wasanaethau eraill, pryd bynnag y bo modd, a'r gwaith cyllidebu ar gyfer eleni wedi canolbwyntio ar fuddsoddiadau sylweddol i gynorthwyo i sefydlu prosiectau cyn i'r cyllid gael ei leihau. Yn unol â phwyslais Llywodraeth Cymru ar gyflogadwyedd, bydd y prosiectau yn canolbwyntio ar y meysydd a ganlyn:
 - Iechyd a Lles. Y gwasanaethau cymorth y gall fod eu hangen ar gleient i'w gynorthwyo i ddod yn gyflogadwy.
 - Datblygu sgiliau. Ar gyfer cleientiaid sydd ag angen datblygu sgiliau ychwanegol fel sgiliau digidol, llythrennedd neu iaith.
 - Gwasanaethau cymorth cyflogadwyedd. Unrhyw hyfforddiant penodol y mae ar gleient ei angen i gael swydd.
- Mae'r staff wedi cael eu symud i un adeilad, gan arbed tua £25,000 fesul clwstwr ledled Casnewydd; fodd bynnag, mae'r canolfannau cymunedol i gyd yn parhau i fod ar agor.
- Mae gwaith gwirfoddolwyr Cymunedau yn Gyntaf yn cyfateb i tua £70–80,000 o gostau staff (wedi'i gyfrifo ar sail isafswm cyflog).
- Mae trefniant ariannu blynyddol yn ei gwneud yn anodd cynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae'r gwasanaethau cymorth cyflogadwyedd wedi'u hariannu tan 2020, ond mae'n anodd gwneud penderfyniadau pan nad yw'r canllawiau ar gael eto. Dim ond am flwyddyn arall y mae'r cyllid ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf wedi'i warantu.
- O ran y rhaglen, mae'r rhan fwyaf o'r prosiectau wedi bod yn canolbwyntio ar feysydd targed, a dim ond os ydynt yn cyd-fynd â'r egwyddor o gynnwys y gymuned y mae prosiectau mwy 'meddal' wedi derbyn cyllid.
- Yn y gorffennol, mae Cymunedau yn Gyntaf yng Nghasnewydd wedi ariannu cronfeydd bwyd, ond nid yw'r cyllid hwn yn cael ei ddarparu bellach.

Rheolau cymhwysedd amrywiol ar draws cynlluniau

- Yn y cynllun Dechrau'n Deg yn Moorlands, codwyd pryderon ynglŷn â'r cyfyngiadau cod post.
- Nid yw'r cynllun yn darparu hyd eithaf ei allu ar hyn o bryd, er bod arian ar gael, oherwydd y cyfyngiadau cod post. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod staff yn gyfarwydd â phobl sy'n byw yn agos at y ganolfan ac a fyddai'n cael budd o'r



gwasanaeth. Fodd bynnag, nid ydynt yn gymwys oherwydd nad yw eu cod post yn cael ei gwmpasu gan y rhaglen Dechrau'n Deg.

- Tynnwyd sylw at y diffyg cysondeb rhwng rhaglenni cymorth; nid oes gan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf gyfyngiad cod post, ond mae Dechrau'n Deg a Chymunedau yn Gyntaf yn gweithredu ar sail cod post. Bydd yn anodd cyd-drefnu gwasanaethau oherwydd y gwahanol ddulliau o benderfynu pwy sy'n gymwys.
- Tynnwyd sylw at y ffaith fod codau post sy'n cynnwys tai gwarchod yn bennaf yn gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg.
- Roedd staff yn teimlo y gellid cynorthwyo i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn pe byddai Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n well â'r rhai sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen.

Y newid i roi mwy o bwyslais ar gyflogadwyedd

- Nid yw Llywodraeth Cymru wedi darparu unrhyw arweiniad ar y Cynllun Cyflogadwyedd hyd yma.
- Mynegwyd pryderon y bydd y pwyslais ar y blynyddoedd cynnar a chyflogadwyedd yn effeithio ar lefel y gefnogaeth y gellir ei darparu ar gyfer pobl ifanc o oedran ysgol uwchradd. Mae rhaglenni fel Aspire wedi cael effaith sylweddol ar sicrhau bod pobl ifanc yn gadael yr ysgol gyda chymwysterau sylfaenol, ac mae perygl y bydd cyfleoedd yn cael eu colli i ymyrryd cyn 16 oed. Clywsom am brofiad un person o'r rhaglen, sut yr enillodd gymwysterau, a gynorthwyodd i arwain at leoliad gyda GemauStryd ac yna swydd gyflogedig gyda'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.
- Amlygwyd ei bod yn llawer mwy anodd cynnal ymyriadau llwyddiannus ar ôl i bobl ifanc adael yr ysgol.
- Pryderon y collir y gefnogaeth ddi-dor sydd ar gael o'r blynyddoedd cynnar i'r ysgol a'r cyfnod ar ôl addysg, gyda theuluoedd a phlant yn cael eu colli ar ôl Dechrau'n Deg.
- Mae sgiliau digidol yn broblem arbennig i bobl dros 50 oed, a bydd yn dod yn broblem fwy arwyddocaol pan gaiff Credyd Cynhwysol ei gyflwyno yng Nghasnewydd y flwyddyn nesaf.
- Rhoddir sanctiynau budd-dâl i bobl yn aml, nid oherwydd nad ydynt yn fodlon cymryd rhan yn y broses ond oherwydd nad oes ganddynt y sgiliau sylfaenol



angenrheidiol i ymgeisio am swyddi. Gall hon fod yn broblem arbennig pan nad yw pobl yn meddu ar y sgiliau iaith angenrheidiol. Rhoddwyd enghreifftiau o gleientiaid sy'n cael gwersi Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), pryd maent yn dysgu sgiliau iaith sylfaenol, ond lle y disgwylir iddynt lenwi ffurflenni cais ar yr un pryd.

- Codwyd pryderon hefyd ynglŷn ag effaith y ffaith nad oes digon o athrawon ESOL ar gael i gyflwyno gwersi ESOL.
- Mae Cymunedau yn Gyntaf yn aml wedi adnabod pobl y mae'r Rhaglen Waith yn eu cyfrif fel y bobl sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad gyflogaeth, ac mae cwmpas y cymorth a ddarperir yn eang a gall gael effaith sylweddol ar unigolion a'u teuluoedd.
- Nid yw pobl yn dymuno mynd i'r Ganolfan Gwaith, ond byddant yn fodlon mynd i ganolfannau Cymunedau yn Gyntaf. Amlygwyd bod llawer o adnoddau yn mynd yn uniongyrchol i'r Ganolfan Gwaith, ond maent yn dibynnu ar y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i ddarparu llawer o'r cymorth angenrheidiol i'w cael yn barod ar gyfer cyflogaeth.
- Ceir peth pryder na fydd y rhaglen Cymorth Cyflogaeth o reidrwydd yn darparu cymorth fel ESOL, sgiliau sylfaenol a chlybiau swyddi. Mae'n canolbwyntio mwy ar gymorth dwys ar gyfer unigolion, ond mae'r gefnogaeth ehangach yn gam cyntaf hanfodol tuag at gael pobl yn barod ar gyfer cyflogaeth.



Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-17-17 Papur 6/ Paper 6

Carl Sargeant AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

16 Mai 2017

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet,

Ymchwiliad i Dlodi yng Nghymru: Cymunedau yn Gyntaf – yr hyn a ddysgwyd

Diolch am eich llythyr dyddiedig 5 Ebrill 2017 ynghylch trefniadau cyllido Cymunedau yn Gyntaf. Ystyriodd y Pwyllgor y llythyr yn ei gyfarfod ar 3 Mai a byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech roi eglurder ar y pwyntiau canlynol:

- Data, ac unrhyw ddadansoddiad o'r ymatebion i'r arolwg Trafod Cymunedau, ac ymgysylltu arall â rhanddeiliaid, a gwybodaeth ar sut y cafodd hyn ei ddefnyddio i lywio'r penderfyniad terfynol i gau'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.
- Rhagor o wybodaeth am sut y bydd y sawl sy'n derbyn cyllid pontio yn adrodd am ganlyniadau, a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn asesu effeithiolrwydd trefniadau pontio.

Yn ystod tymor yr haf, bydd y Pwyllgor yn casglu tystiolaeth gan amrywiaeth o randdeiliaid mewn perthynas â Chymunedau yn Gyntaf a'r hyn a ddysgwyd. Rydym yn eich gwahodd i ddod i'r cyfarfod **ddydd Mercher 21 Mehefin 2017** i roi tystiolaeth i lywio ein gwaith.



Rydym wedi cyhoeddi galwad am dystiolaeth sy'n cau **ddydd Llun 22 Mai**. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar dudalen we yr ymgynghoriad:

<http://senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=260&RPID=1508624311&cp=yes>

Unwaith i'r ymgynghoriad gau, byddwn yn gallu rhoi mwy o wybodaeth i chi am y meysydd holi ar gyfer y sesiwn tystiolaeth lafar. Gofynnwn am eich cyflwyniad ysgrifenedig erbyn **2 Mehefin 2017** os gwelwch yn dda.

Yn gywir



John Griffiths AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Carl Sargeant AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P-CS-1329-17

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

31st Mai 2017

Annwyl John

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Mai yn gofyn am wybodaeth bellach ynghylch rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ac yn fy ngwahodd i roi tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor i'r gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen.

Rwy'n falch o dderbyn eich gwahoddiad a byddaf yn cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig ar ran Llywodraeth Cymru maes o law.

O ran dadansoddi'r ymatebion i ddigwyddiadau ymgysylltu Trafod Cymunedau, contractiwyd Arad Consulting i ymgymryd â'r gwaith hwn yn dilyn proses dendro yn unol â rheolau caffael Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd i Arad Consulting gynnal dadansoddiad manwl o'r holl adborth a gasglwyd o'r digwyddiadau ymgysylltu â'r arolwg ar-lein. Cyhoeddwyd eu hadroddiad yn yr adran Cymunedau yn Gyntaf ar wefan Llywodraeth Cymru yn dilyn fy natganiad i'r Cyfarfod Llawn ym mis Chwefror, ac mae'r crynodeb gweithredol a'r adroddiad llawn i'w cael yn y ddolen ganlynol:

<http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/communitiesfirst/?lang=cy>

Rhoddais ystyriaeth lawn i'w hadroddiad a'r asesiadau effaith statudol wrth wneud fy mhenderfyniad ynghylch dyfodol y rhaglen.

O ran adrodd ar ganlyniadau ar gyfer cyllid Cymunedau yn Gyntaf yn 2017-18, nid ydym wedi pennu un set o fesurau perfformiad ar gyfer pob Corff Cyflawni Arweiniol am ei bod yn flwyddyn bontio.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn hytrach, rydym yn disgwyl i Gyrrff Cyflawni Arweiniol ddatblygu amcanion CAMPUS a chlir sy'n amlinellu beth fyddant yn ceisio ei gyflawni a sut byddant yn monitro cynnydd. Cafodd hyn ei nodi yn y canllawiau trosglwyddo a'r strategaeth gysylltiedig. Bydd hefyd gofyn iddynt gyflwyno dau adroddiad monitro ym mis Medi 2017 a mis Mawrth 2018 yn adrodd ar berfformiad yn ystod y flwyddyn ac ar hynt y broses drosglwyddo.

Ochr yn ochr â'r amcanion hyn, mae fy swyddogion hefyd yn monitro'r trafodion ariannol a'r hawliadau yn erbyn y dyraniadau cyllid.

I sicrhau bod trefniadau pontio'r Cyrff Cyflawni Arweiniol yn effeithiol, mae Tîm Pontio Cymunedau yn Gyntaf yn cwrdd yn rheolaidd â'r cyrrff hyn yn unigol ac mewn cyfarfodydd rhwydweithio, ac yn cynnig help a chymorth yn ystod y flwyddyn.

Yn gywir



Carl Sargeant AC / AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

Ystadegau allweddol

Cyfanswm nifer y cyfranogwyr: 33

Lleoliad y cyfranogwyr: Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Caerffili, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Caerdydd, Bro Morgannwg, Ynys Môn, Conwy, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Wrecsam.

Rhwydwaith Tenantiaid TPAS Gorllewin Cymru

Nifer y cyfranogwyr: 9

Lleoliad y cyfranogwyr: Sir Benfro (4), Sir Gaerfyrddin (3), Ceredigion (1), Sylwedydd (1), Staff (2)

Beth y mae pobl yn ei wybod am Hawl i Brynu / Hawl i Gaffael?

- Beth yw'r pethau cadarnhaol? (e.e. mynediad at berchnogaeth cartref).
- Beth yw'r pethau negyddol? (e.e. effaith ar y gymuned ehangach, colli'r stoc o dai cymdeithasol, eiddo yn mynd i'r sector rhentu preifat yn y pen draw, cartrefi gwell mewn ardaloedd brafiach wedi cael eu gwerthu)

Teimlai'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr na ddylai rhent a delir drwy sefydliadau tai cymdeithasol ac eiddo cymdeithasau tai gael ei ddefnyddio fel cymhorthdal i denantiaid eraill sydd ag awydd i brynu, pan allai eiddo gael ei ddefnyddio'n well ar gyfer tai i bobl sydd mewn angen (yn enwedig pobl dlawd a phobl sy'n ddigartref): "Dylai tai cymdeithasol fod yn dai cymdeithasol". Yn ogystal â disbyddu'r stoc dai, mae cymorthdaliadau ar gyfer y cynlluniau "yn dwyn y cyfle i rywun gael rhywle i fyw".

Eglurodd cyfranogwyr o **Sir Gaerfyrddin** fod cyflwyno'r cynlluniau yn arwain at werthu eiddo mawr 3 - 4 ystafell wely, sy'n parhau yn brin yn awr. Eglurodd un cyfranogwr sut y mae rhai o'r eiddo 3 - 4 ystafell wely hyn, er yn cael eu prynu i ddechrau gan rai sy'n gymwys i wneud cais am y cynlluniau, yn eiddo i landlordiaid preifat ac y gellir eu prynu ar y farchnad am +£300,000.



Nid oedd dim un o'r cyfranogwyr wedi defnyddio eu hawl i gaffael neu brynu, ond nododd un cyfranogwr brofiadau cymdogion ar ei hystâd. Roedd pob eiddo, ac eithrio un, yn parhau ym mherchnogaeth y tenantiaid gwreiddiol – mae'r gweddill bellach mewn dwylo landlordiaid preifat.

Trafododd y grŵp y polisi cychwynol a'r feddylfryd sydd wrth wraidd cyflwyno'r cynlluniau. Roedd y ddamcaniaeth o ran cynnig adeiladu dwy uned tai cymdeithasol newydd ar gyfer pob tŷ cymdeithasol a brynwyd neu a gafwyd yn dda – ond nid oedd yn digwydd yn ymarferol. Nid oedd llawer o awdurdodau lleol yn gallu adeiladu eiddo arall, ac roedd llawer o'r cyfranogwyr yn cwestiynnu ble y mae'r arian o werthu'r rhain yn cael ei ddefnyddio.

Roedd pob un o'r cyfranogwyr yn cydnabod y wasgfa y mae pobl yn awr yn ei themlo wrth geisio cael mynediad at y farchnad dai a gwella'r stoc dai cymdeithasol. Mae cynlluniau fel Cymorth i Brynu yn ei gwneud yn ofynnol i ddarpar ymgeiswyr fod yn ennill o leiaf £15,000 y flwyddyn i fod yn gymwys, ac mae "tai fforddiadwy" yn gwerthu am oddeutu £165,000. Dywedodd un cyfranogwr: "Fforddiadwy i bwy?". Mae'r cyflog blynyddol cyfartalog mewn rhai ardaloedd yn llai na'r isafswm sy'n angenrheidiol i fod yn gymwys ar gyfer y cynllun, ac felly, trafododd rhai o'r cyfranogwyr ddiffyg ymwybyddiaeth cynlluniau o'r fath o'r cymunedau y bwriadwyd iddynt eu cefnogi.

- **A ymgynghorwyd yn ddigonol â thenantiaid ar y cynigion hyn? (Ymatebodd Tenantiaid Cymru a TPAS i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn yn 2015 a dweud na fu digon o amser i ymgysylltu'n briodol â thenantiaid)**

Nid oedd y cyfranogwyr yn teimlo bod ymgynghori digonol wedi bod â hwy ar y cynigion hyn. Yna roedd yn ofynnol i bob landlord ddsbarthu holiadur yr ymgynghoriad i denantiaid, ond roedd llawer o denantiaid na chawsant mohono. Hefyd, eglurodd y cyfranogwyr, yn hytrach na hwyluso cyfarfodydd cyhoeddus ar ystadau tai ac ati, defnyddiodd Llywodraeth Cymru y cyfleoedd a oedd eisoes wedi eu cynllunio yn y gymuned er mwyn ymgysylltu â thenantiaid: "Fe allen nhw fod wedi cynnal te ar lawnt y pentref – nid oedd yn benodol".

Safbwyntiau ar atal yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael

- **A yw atal yr Hawl i Brynu / Hawl i Gaffael yn well na'u diddymu? (a fydd yn rhoi digon o amser i gynghorau a chymdeithasau tai wella'r cyflenwad o gartrefi newydd?)**



- **A ddylai ataliadau gael cyfle i gael effaith? (Digwyddodd yr atal dros dro gyntaf ddwy flynedd yn unig yn ôl)**

Mae "Atal yn well na dim" meddai un cyfranogwr, ond mae llawer o gyfranogwyr nad oeddent yn teimlo bod atal yn well na diddymu, ac os y byddai, (a thai yn flaenoriaeth), y byddai ardaloedd lle y byddai ataliadau wedi bod wedi blaenoriaethu ac wedi arfer y theori a oedd wrth wraidd y cynlluniau yn y lle cyntaf: gan ail-gyflenwi'r stoc dai ddwywaith drosodd gyda phob pryntant. Eglurodd cyfranogwyr **Sir Gaerfyrddin** mai dim ond yn awr y mae'r awdurdod lleol wedi cael caniatâd i adeiladu 30 o fyngalos newydd, a hi oedd un o'r siroedd cyntaf i atal, ac roedd arni angen caniatâd Llywodraeth Cymru i wneud hynny.

Holodd un cyfranogwr (**Ceredigion**) am y broses o fonitro effaith atal yn awr, a pha mor llwyddiannus a fu hyn. **Mae'r stoc yn ailgyflenwi'n araf, ond nid ar y gyfradd y mae ei angen er mwyn dechrau gwneud gwahaniaeth.** Mynegodd y cyfranogwyr nad yw'r gyfradd hon yn sicr yn ddigon cyflym yn y Gymru

Wledig Eglurodd cyfranogwyr **Sir Benfro** a **Cheredigion** fod y rhan fwyaf o dai cymdeithasol a gollwyd i'r sector rhentu preifat wedi eu colli i dai myfyrwyr a thai i dwristiaid / rhentu tai gwyliau er mwyn gwneud elw busnes: "Mae'n digwydd yn aml iawn." Gall y tai hyn, sydd bellach yn eiddo preifat (weithiau o fewn ystadau a oedd yn eiddo i awdurdodau lleol/ cymdeithasau tai yn gyfan gwbl) fod mewn cyflwr gwaeth yn esthetig, ac nid oes yn rhaid i denantiaid / berchnogion gydymffurfio yn yr un modd ag y mae'n ofynnol i denantiaid awdurdodau lleol / cymdeithasau tai presennol ei wneud

- **A ddylai tenantiaid mewn ardaloedd lle y mae'r Hawl i Brynu / Hawl i Gaffael wedi cael eu hatal gael cyfle arall i brynu eu cartref cyn bod y cynlluniau hyn yn cael eu diddymu?**

Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod bod angen rhoi ystyriaeth arbennig i denantiaid sy'n byw mewn ardaloedd atal dros dro.

Esboniodd cyfranogwyr **Sir Gaerfyrddin**, pan gyflwynwyd ataliadau, cafodd tenantiaid gyfle i gyflwyno ceisiadau ar gyfer eu Hawl i Brynu / Gaffael i fod ar restr aros (h.y. i aros i'r ataliad dros dro gael ei godi). Holasant beth fyddai'n digwydd iddynt hwy, pe bai pob tenant cymwys arall yn cael cynnig cyfle arall i brynu eu heiddo? I ba raddau y byddai'r rhestr hon yn cynyddu a phwy a gâi'r flaenoriaeth? A oedd unrhyw ardaloedd



eraill, ble y cafwyd atal dros dro, yn rhoi'r un lle i denantiaid i aros? Os yw pob un yn cael eu hawliau cyfartal, i ba raddau y byddai stociau'n disbyddu?

Trafododd rhai cyfranogwyr "ruthro" posibl i brynu, a theimlai rhai y dylai cyfamodau cyfyngu gael eu rhoi ar waith i sicrhau nad oes gwerthu ymlaen i'r sector rhentu preifat ar ôl yr amserlen pum mlynedd, ac nad oedd y cyfyngiad yn berthnasol i'r gwerthiant cyntaf yn unig. Mynegodd cyfranogwr arall hefyd ei hawydd i weld cymal prif breswylfa yn cael ei gynnwys yn hyn.

Mynegodd un cyfranogwr (Sir Benfro) hefyd yr angen i newid pob contract tenantiaid unwaith y bydd y newid yn digwydd (yn unol â Deddf Rhentu Cartrefi) fel nad oes unrhyw gyfeiriadau at hawliau mewn contractau. Mae'r cyfranogwr hefyd yn mynd ymlaen i egluro bod angen i'r Bil fod yn fwy eglur o ran dangos y byddai ond yn berthnasol i eiddo Hawl i Brynu / Hawl i Gaffael, nid pob eiddo (er enghraifft, cartrefi a addaswyd).

Diddymu'r Hawl i Brynu / Hawl i Gaffael

- **A ddylai'r cynlluniau hyn gael eu diddymu a pham?**

Roedd wyth o'r naw o gyfranogwyr yn croesawu'r cynigion a gyflwynwyd yn y Bil drafft.

Mynegodd un cyfranogwr (Ceredigion) ei bryderon y byddai diddymu'r hawl i brynu a'r hawliau cysylltiedig yn tynnu'r dewis a fyddai gan denantiaid o ran cael y cyfle i fod yn berchen ar neu i rentu eu heiddo, ac mae'n "helpu teuluoedd ifanc i fod yn rhan o'r farchnad dai heb orfod gadael a chychwyn o'r newydd mewn man gwahanol".

Mynegwyd bod llawer o denantiaid yn buddsoddi llawer o amser ac arian yn yr hirdymor i wneud eu heiddo yn "gartref" ac roedd y cynlluniau Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael yn darparu'r dewis hwnnw iddynt.

- **Faint o rybudd y dylid ei roi cyn iddynt gael eu diddymu? (Bydd 12 mis o rybudd ar gyfer y rhan fwyaf o denantiaid)**

Roedd cyfranogwyr yn teimlo nad oedd 12 mis yn ddigon o rybudd, ac eglurwyd bod angen treulio mwy o amser yn ymgysylltu â thenantiaid mewn modd ystyrlon.

- **A yw'n briodol bod cyfnod rhybudd byrrach yn berthnasol i dai sydd newydd eu gosod / newydd eu hadeiladu? (Bydd hyn yn dod i rym ddau fis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol)**



Teimlai un cyfranogwr y gallai hwn fod ychydig yn hwy, ond eglurodd fod adeiladwyr tai newydd yn darparu gwarant o 12 mis ar yr eiddo ar ôl trosglwyddo, a bod gan gymdeithasau tai warant o 10 mlynedd – a oedd hwn yn trosglwyddo ymlaen i'r tenant sy'n prynu'r tŷ? Holodd cyfranogwr arall sut y byddai'r ymgysylltu'n uniongyrchol â thenantiaid a'r rhwymedigaeth i rannu gwybodaeth am y newidiadau arfaethedig yn cael ei wneud o fewn yr amserlen hon.

- **Sut y dylai tenantiaid gael gwybod am y newidiadau? (a yw tenantiaid yn hyderus y bydd eu landlordiaid yn cyfleu'r wybodaeth i'r holl denantiaid)**

Dangoswyd y fersiwn drafft o'r ddogfen wybodaeth y bwriedir ei hanfon at landlordiaid a thenantiaid perthnasol i'r cyfranogwyr, os yw'r Bil i gael ei basio gan y Cynulliad.

Nododd un cyfranogwr fod yr holl wybodaeth bellach sydd ar gael yn y ddogfen yn wybodaeth ar-lein yn unig: "Pam nad oes yna unrhyw ymgyrchoedd ar hyn yn mynd ymlaen yn awr ar y teledu neu'r radio?" Mynegodd y cyfranogwyr eu pryderon fod mannau cymunedol yn y gymuned (fel llyfrgelloedd) yn cau, ac am y diffyg cyfleusterau sydd ar gael i bobl ddechrau chwilio am y wybodaeth hon: "... mae popeth yn gofyn am fynediad at y cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngwryd ... mae unrhyw beth sy'n digwydd nawr yn dyfynnu www. adnodd ... ni fydd pobl yn cael gwybodaeth". Aeth eraill o fewn y grŵp ymlaen i rannu eu syniadau o ddefnyddio faniau cymunedol a pharcio mewn ystadau tai am ychydig oriau er mwyn cael presenoldeb yn y gymuned os byddai angen i bobl drafod pwnc penodol.

Yn peri rhagor o bryder i'r cyfranogwyr oedd y broses a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid ac awdurdodau lleol / cymdeithasau tai anfon y wybodaeth yn uniongyrchol at denantiaid: "Mae rhai pobl yn rhy ofnus i ymgysylltu â nhw – mae gan bobl ofn gwirioneddol ohonynt. Os ydych yn cael llythyr gan y cyngor neu neges destun gan landlord yn gofyn a gaiff alw heibio, y peth cyntaf y byddwch yn meddwl yw: A ydw i'n cael fy nhroi allan o'r tŷ? Beth wyf wedi'i wneud o'i le? Mae pobl yn ofnus".

Mynegodd un cyfranogwr sut y mae llai o gyfarfodydd ffurfiol yn cael eu cynnal yn y gymuned, a'r modd y mae'n gymaint o her i gael tenantiaid newydd i ymuno â'r rhwydweithiau presennol. Fel y cyfryw, cynigiodd yr angen i brofi a mabwysiadu dulliau gwahanol. Ymhelaethodd y cyfranogwr hefyd ar ymarferiad Proffilio Tenantiaid a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ychydig o flynyddoedd yn ôl. Roedd yn ofynnol i landlordiaid, awdurdodau lleol a chymdeithasau tai anfon yr holiadur proffilio at



denantiaid. Gwnaed hyn drwy'r post, a chafwyd 25 y cant o'r holiaduron yn ôl i ddechrau. A hwythau'n anfodlon â'r nifer a ddychwelodd yr holiadur, rhoddwyd y dasg i'r rhai a oedd yn gyfrifol am yr holiadur i anfon staff (gydag un ardal yn llogi hyd at 80 o staff) i fynd allan ac ymgysylltu wyneb-yn-wyneb â chymunedau. Y canlyniad oedd bod 87 y cant o'r holiaduron proffilio wedi'u cwblhau: "Dim ond un ffordd sydd o hyd i gyrraedd tenantiaid ... Mae lle ar gyfer cysylltiad unigol. Gallwch ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer y bobl ifanc, yn ogystal â'r cyfryngau traddodiadol, ond mae angen i'r adnoddau ar gyfer darparu fod ar gael". I weithio yn y tymor hwy, ac ar gyfer ymgysylltu parhaus, teimlai'r cyfranogwr y dylai ardaloedd neu ystadau tai gael hyrwyddwyr cymunedol – o'r cymunedau hynny, ac nid rhywun sy'n cael eu cyflogi, neu staff awdurdodau lleol / cymdeithasau tai i gynnal cyfarfodydd

Rhwydwaith Tenantiaid TPAS De Cymru

Nifer y cyfranogwyr: 12

Lleoliad y cyfranogwyr: Caerdydd (4), Caerffili (3), Bro Morgannwg (1), Rhondda Cynon Taf (1), Abertawe (2), Sir Gaerfyrddin (1)

Beth y mae pobl yn ei wybod am Hawl i Brynu / Hawl i Gaffael?

- Beth yw'r pethau cadarnhaol? (e.e. mynediad at berchnogaeth cartref)
- Beth yw'r pethau negyddol? (e.e. effaith ar y gymuned ehangach, colli'r stoc dai cymdeithasol, eiddo yn mynd i'r sector rhentu preifat yn y pen draw, cartrefi gwell mewn ardaloedd brafiach wedi cael eu gwerthu)

Croesawodd pob un o'r rhai a gymerodd ran yn y sesiwn y Bil.

O ran y pethau cadarnhaol, cytunodd y cyfranogwyr, ar adeg cyflwyno'r Bil, y byddai'r hawliau yn helpu tenantiaid i gael troed i mewn i'r farchnad eiddo, ond bod hyn yn cael ei wrthbwysu gan y ffaith nad oedd yr arian byth yn cael ei ddefnyddio i ailadeiladu gan y Trysorlys. Hyn, y teimlwyd, yw'r achos pam fod cynifer o dai yn y sector rhentu preifat: "Sefydlwyd tai cymdeithasol ar gyfer teuluoedd dosbarth gweithiol. Y cyfan y mae'r cynllun Hawl i Brynu wedi'i wneud yw ei roi yn ôl yn y sector rhentu preifat, a budd-daliadau tai sy'n talu amdano".

Teimlai rhai cyfranogwyr, gan nad oedd yr arian yn mynd yn ôl i'r sector tai cymdeithasol, a bod eiddo yn cael ei werthu i'r sector rhentu preifat, mae wedi creu "poblogaeth symudol" o fewn cymunedau: gan annog gwasgaru a darnio cymunedol.



Nid oedd hyn o reidrwydd yn beth drwg, ond teimlwyd ei fod yn gwneud cydgysylltiad cymunedol yn anodd pan fydd rhai tai ar ystadau yn dai cymdeithasol ac eraill sy'n eiddo preifat ac nad ydynt yn ddarostyngedig i reolau tenantiaeth.

Trafododd y grŵp y difaterwch ymysg tenantiaid, ac nad yw'r rhan fwyaf yn poeni neu nad ydynt yn gwybod bod yr hawliau ganddynt.

Esboniodd un cyfranogwr ei fod yn gwybod am rai dinasyddion a oedd wedi arfer eu Hawl i Brynu, ac roedd yn teimlo nad oedd ymdrech gydunol i esbonio iddynt nad oedd bob amser y peth gorau iddynt ei wneud: "Roedd yn fuddiol iawn iddynt fod yn berchen ar eu tai, ond roedd yn rhaid iddynt wneud eu taliadau cynnal a chadw eu hunain. Nid yw hyn wedi'i egluro i bobl".

- **A ymgynghorwyd yn ddigonol â thenantiaid ar y cynigion hyn? (Ymatebodd Tenantiaid Cymru a TPAS i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn yn 2015 a dweud na fu amser digonol i ymgysylltu'n briodol â thenantiaid).**

Dywedodd y cyfranogwyr, eu bod yn teimlo, pe bai tenantiaid yn ymwneud mewn rhyw ffordd yn y mudiad tenantiaid, y byddent wedi clywed am y cynigion o leiaf. Fodd bynnag, ar gyfer tenantiaid eraill, nid oeddent yn ymwybodol o gwbl o'r ymgynghoriad.

Safbwyntiau ar atal yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael

- A yw atal Hawl i Brynu / Hawl i Gaffael yn well na diddymu? (a fydd yn rhoi digon o amser i gynghorau a chymdeithasau tai wella'r cyflenwad o gartrefi newydd?)
- A ddylai ataliadau gael cyfle i gael effaith? (Dim ond tua dwy flynedd yn ôl y digwyddodd yr atal dros dro cyntaf)

"Mae atal yn beth da, ond nid yw atal dros dro am 5 mlynedd yn ddigon o amser i wella'r cyflenwad. O'r cam o wneud cais am ganiatâd cynllunio at y cam o symud i mewn i dŷ, mae hynny'n cymryd mwy o amser na 5 mlynedd" meddai un cyfranogwr. Teimlai rhai cyfranogwyr hefyd y dylai ataliad fod wedi digwydd ar draws Cymru er mwyn sicrhau unffurfiaeth, ac fel ffordd o wneud y polisi tai yng Nghymru yn well.

- **A ddylai tenantiaid mewn ardaloedd lle y mae'r Hawl i Brynu / Hawl i Gaffael wedi cael ei atal gael cyfle arall i brynu eu cartref cyn i'r cynlluniau hyn gael eu diddymu?**



Roedd cyfranogwyr yn teimlo nad oedd yn deg nad oedd y rhai mewn ardaloedd atal dros dro yn cael yr un hawliau, a bod hyn yn "rhannu'r wlad a chymunedau – mae angen i ni fod yn uno cymunedau". O'r herwydd, maent yn teimlo y dylai pawb gael yr un hawliau, neu y dylai pob awdurdod lleol atal cyn bod diddymu yn digwydd.

Diddymu'r Hawl i Brynu / Hawl i Gaffael

- **A ddylai'r cynlluniau hyn gael eu diddymu a pham?**

Croesawodd yr holl gyfranogwyr y cynigion a gyflwynir yn y Bil drafft. Nododd un cyfranogwr sut y gallai ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i adeiladu 20,000 o gartrefi newydd dros y pum mlynedd nesaf arwain at eu bod yn cael eu gwerthu ymlaen yn gyflymach nag y maent yn cael eu hadeiladu gan y maddeuant a roddir yn y 12 mis o rybudd i arfer, yn dilyn y Cydsyniad Brenhinol.

- **Faint o rybudd y dylid ei roi cyn iddynt gael eu diddymu? (Bydd 12 mis o rybudd ar gyfer y rhan fwyaf o denantiaid)**

Roedd cyfranogwyr yn teimlo y byddai 12 mis o rybudd yn arwain at "ruthr mawr" posibl i brynu: "Bu'n hawl gan denantiaid ers dros 30 mlynedd ... pam nawr? Dim ond oherwydd eich bod wedi cael yr Hawl i Brynu nid yw hynny'n golygu ei fod yn beth moesol gywir bod modd ichi brynu tai cymdeithasol a'u cymryd oddi ar rywun arall".

- **A yw'n briodol bod cyfnod rhybudd byrrach yn berthnasol i dai sydd newydd eu gosod / newydd eu hadeiladu? (Bydd hyn yn dod i rym ddau fis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol)**

Teimlai'r grŵp mai po leiaf o rybudd oedd yn gysylltiedig â'r eiddo y gorau.

- **Sut y dylai tenantiaid gael gwybod am y newidiadau? (a yw tenantiaid yn hyderus y bydd eu landlordiaid yn cyfleu'r wybodaeth i'r holl denantiaid)**

Dangoswyd i'r cyfranogwyr y fersiwn ddrafft o'r ddogfen wybodaeth y bwriedir ei hanfon at landlordiaid a thenantiaid perthnasol, os caiff y Bil ei basio gan y Cynulliad.

Cytunodd y cyfranogwyr y dylai unrhyw ymdrech ar y cyd i ymgysylltu fod yn ymdrech aml-lwyfan ac wyneb yn wyneb, i liniaru unrhyw ofnau sydd gan denantiaid am gamddechongli cylchlythyrau: "... efallai y bydd pobl yn darllen gohebiaeth ac yn meddwl eu bod yn colli eu cartrefi neu'n cael eu troi allan". Mynegodd cyfranogwr arall:



"Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud hyn ... mae angen i chi ddangos parch at bobl a siarad â hwy".

Roedd cyfranogwyr yn teimlo y byddai digwyddiadau cymdeithasol yn y gymuned hefyd yn lleddfu unrhyw bryderon.

Rhwydwaith Tenantiaid TPAS Gogledd Cymru

Nifer y cyfranogwyr: 12

Lleoliad y cyfranogwyr: Wrecsam (2), Sir y Fflint (3), Conwy (3), Ynys Môn (3), Sir Ddinbych (1)

Beth y mae pobl yn ei wybod am Hawl i Brynu / Hawl i Gaffael?

- **Beth yw'r pethau cadarnhaol? (e.e. mynediad at berchnogaeth cartref)**
- **Beth yw'r pethau negyddol? (e.e. Yr effaith ar y gymuned ehangach, colli'r stoc dai cymdeithasol, eiddo yn mynd i'r sector rhentu preifat yn y pen draw, cartrefi gwell mewn ardaloedd brafiach wedi cael eu gwerthu)**

Roedd wyth o'r cyfranogwyr yn croesawu'r Bil. Mewn egwyddor ac ar gyflwyno'r Bil, credai'r grŵp bod y polisi yn un da, ond na chafodd ei fonitro erioed.

Y pethau cadarnhaol oedd y mynediad at berchnogaeth cartref, a'r posibilrwydd y gallai rhagor o dai cymdeithasol gael eu hadeiladu gyda'r arian a godir o werthiannau. Wrth gwrs, nid oedd hyn yn digwydd.

Roedd dau o'r cyfranogwyr yn huawdl ynghylch peidio â chroesawu'r Bil, gan ddweud ei fod: "... yr unig ddewis i allu prynu tŷ". Roedd cyfranogwyr yn teimlo y dylai tenantiaid hirsefydlog a oedd â Hawl i Brynu allu cadw'r hawl os dymument, ond gofynasant hefyd pam nad oedd yr arian a godwyd yn cael ei ddefnyddio i ail-adeiladu stoc. Roedd ail gyfranogwr yn cefnogi'r Hawl i Brynu mewn egwyddor, ac yn meddwl ei fod yn "syniad da", ond ar ôl cael eu hunain bron yn ddigartref, roedd yn gwerthfawrogi y dylai tai cymdeithasol gael eu defnyddio ar gyfer y rhai sydd fwyaf o'u hangen.

O ran pethau negyddol, mae'r stoc dai yn disbyddu ac mae'r rhan fwyaf o eiddo nawr yn y sector rhentu preifat. Teimlai rhai cyfranogwyr hefyd y dylai Cymdeithasau Tai roi'r gorau i ddarparu cartrefi ar gyfer y rhai a allai fforddio tai. Mae cyflwyno'r dreth ystafell wely hefyd wedi cael effaith ar argaeledd stoc dai cymdeithasol addas. Roedd



cyfranogwyr yn teimlo, o leiaf y bydd y stoc bresennol yn cael ei gadw pe bai'r Hawl i Brynu / Gaffael yn cael ei ddiddymu.

Teimlai rhai cyfranogwyr bod "angen i Lywodraeth Cymru newid ei ffordd o feddwl 'o ran yr hyn y maent yn ei olygu wrth "dai fforddiadwy" a "thai cymdeithasol". Adroddodd un cyfranogwr am 36 o gartrefi a oedd yn cael eu hadeiladu yn Queensferry – mae ½ y tai yn cael eu rhoi ar werth, mae 1/3 ar gyfer Cymdeithasau Tai a dim ond 7 tŷ sydd ar gyfer y stoc dai cymdeithasol. Teimlai'r er bod datblygiadau yn digwydd, nid oedd digon yn cael ei ddefnyddio i ailgyflenwi stoc.

• A ymgynghorwyd yn ddigonol â thenantiaid ar y cynigion hyn? (Ymatebodd Tenantiaid Cymru a TPAS i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn yn 2015 a dweud na fu amser digonol i ymgysylltu'n briodol â thenantiaid).

Nid oedd y cyfranogwyr yn teimlo bod ymgynghori digonol wedi bod â hwy ar y cynigion hyn, ac nad oeddynt wedi bod yn rhan o unrhyw drafodaethau.

Safbwyntiau ar atal dros dro yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael

- A yw atal yr Hawl i Brynu / Hawl i Gaffael yn well na'u diddymu? (a fydd yn rhoi digon o amser i gynghorau a chymdeithasau tai wella'r cyflenwad o gartrefi newydd?)
- A ddylai ataliadau gael cyfle i gael effaith? (Dim ond tua dwy flynedd yn ôl y digwyddodd yr atal dros dro cyntaf)
- A ddylai tenantiaid mewn ardaloedd lle y mae'r Hawl i Brynu / Hawl i Gaffael wedi cael ei atal gael cyfle arall i brynu eu cartref cyn i'r cynlluniau hyn gael eu diddymu?

Wrth drafod y diffiniad o atal dros dro, a chynigion y Bil, newidiodd pump o'r cyfranogwyr eu meddyliau o ran eu safbwyntiau cychwynnol o fod o blaid diddymu. Teimlwyd bod ailosod yr Hawl i Brynu yn dilyn ei atal dros dro yn well na'i ddiddymu yn gyfan gwbl, gan y byddai hyn yn galluogi'r stoc dai i ailgyflenwi'n ddigonol. Roeddent hefyd, fodd bynnag, yn ofalus wrth ddweud, os oedd hyn yn wir, byddai'n rhaid defnyddio'r arian i ailgyflenwi stoc pan fyddai'r Hawliau'n cael eu hadfer: "... byddai angen i chi wneud pethau'n iawn y tro hwn."

Roedd y tri chyfranogwr arall a oedd yn parhau o blaid diddymu, yn cwestiynu sut y byddai atal yn effeithiol wrth gadw'r stoc dai yn yr hirdymor.



Roedd y cyfranogwyr yn teimlo'n gyffredinol y dylai tenantiaid mewn ardaloedd lle y mae Hawl i Brynu / Hawl i Gaffael wedi cael ei atal gael cyfle arall i brynu eu cartref cyn bod y cynlluniau hyn yn cael eu diddymu. grŵp

Diddymu'r Hawl i Brynu / Hawl i Gaffael

- A ddylai'r cynlluniau hyn gael eu diddymu a pham?

Erbyn y pwynt hwn yn y trafodaethau, roedd y cyfranogwyr yn gymaint dros ac yn erbyn diddymu'r cynlluniau.

Nid oedd gan rai cyfranogwyr ddewis ond troi at y sector rhentu preifat oherwydd y prinder tai cymdeithasol a'u statws o "beidio â bod yn flaenoriaeth". Nododd cyfranogwr arall: "Ni fyddai fy nghydwybod yn gadael i mi brynu fy nghartref tai cymdeithasol".

- Faint o rybudd y dylid ei roi cyn iddynt gael eu diddymu? (Bydd 12 mis o rybudd ar gyfer y rhan fwyaf o denantiaid)

Teimlai un cyfranogwr nad oedd yr amser yn ddigon hir i bobl benderfynu arfer eu Hawl i Brynu, ond y byddai'n ddigon o amser i amddiffyn stoc. Teimlai ail gyfranogwr fod 12 mis yn amser "rhy hir", tra bod eraill yn teimlo ei fod yn ddigonol.

- A yw'n briodol bod cyfnod rhybudd byrrach yn berthnasol i dai sydd newydd eu gosod / newydd eu hadeiladu? (Bydd hyn yn dod i rym ddau fis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol)

Teimlai'r grŵp y gallai'r amserlen hon gael ei hystyngiadau ychydig er mwyn rhoi cyfle i denantiaid benderfynu. Roedd cyfranogwyr yn teimlo y dylai cymalau gael eu cynnwys mewn contractau i osod cyfamodau cyfyngu a fydd yn sicrhau, os bydd tenant yn prynu, ond ei fod yn awyddus i symud ymlaen, bod y tŷ yn cael ei werthu yn ôl i'r stoc.

- Sut y dylai tenantiaid gael gwybod am y newidiadau? (A yw tenantiaid yn hyderus y bydd eu landlordiaid yn cyfleu'r wybodaeth i'r holl denantiaid)

Dangoswyd i'r cyfranogwyr y fersiwn ddrafft o'r ddogfen wybodaeth y bwriedir ei hanfon at landlordiaid a thenantiaid perthnasol, os caiff y Bil ei basio gan y Cynulliad.



Cytunodd y cyfranogwyr y dylai unrhyw ymgyrch i hysbysu tenantiaid o'r newidiadau ddigwydd ar-lein ac oddi ar-lein, a chan ddefnyddio hysbysebion radio, newyddion a theledu.

Teimlai un cyfranogwr na ddylai acronymau gael eu defnyddio yn y ddogfen, ac y dylid nodi pob gair yn glir.

Teimlai cyfranogwyr gwledig eu bod wedi cael eu hesgeuluso o ran ymgynghori, ac nid oeddent yn teimlo "eu bod yn gallu cymryd rhan." Dylai gwybodaeth am y gwahaniaeth rhwng atal dros dro a diddymu mewn rhai ardaloedd hefyd gael ei gwneud yn gliriach yn y ddogfen ddrafft



Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

Grŵp Cyfranogiad Tenantiaid Cyngor Sir Ynys Môn

Nifer y cyfranogwyr: 12

Cartref y cyfranogwyr: Ynys Môn

Beth y mae pobl yn ei wybod am y cynllun Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig?

- Beth yw'r manteision? (ee cyfle i brynu tŷ)
- Beth yw'r anfanteision? (ee yr effaith ar y gymuned ehangach, lleihau'r stoc tai cymdeithasol, eiddo yn dod yn rhan o'r sector rhentu preifat yn y pen draw, cartrefi gwell mewn ardaloedd brafiach wedi cael eu gwerthu)

O ran y manteision, teimlai'r tenantiaid bod yr Hawl i Brynu yn rhoi cyfle iddynt brynu eiddo, ond roedd hynny, yn anochel, yn lleihau'r stoc: "dylid defnyddio tai cyngor ar gyfer y rhai sydd mewn angen".

Roedd y cyfranogwyr yn cytuno bod angen atal y cynllun Hawl i Brynu, ond byddai'n well ei ddiddymu. Roedd y tenantiaid yn rhoi'r bai ar y cyngor am leihau'r stoc (o gofio'r rheol y dylid adeiladu dau dŷ ychwanegol am bob un a werthir), cyn sylweddoli bod yr arian i gyd yn mynd yn ôl i'r Trysorlys. Teimlai'r tenantiaid nad oedd cost y tai a werthwyd yn cyfateb i'r gost o adeiladu dau dŷ ychwanegol. Roedd llawer o gyfranogwyr yn pryderu am yr effaith y byddai'r polisi'n ei chael ar bobl ifanc nad ydynt mewn sefyllfa i brynu eiddo nac i gael tŷ cyngor gan na fyddent "yn bodloni'r meini prawf: "rhaid iddynt fod yn denantiaid am o leiaf bum mlynedd". Nod y cynllun presennol yw adeiladu 195 o gartrefi newydd dros y pedair blynedd nesaf, ond mae hynny'n gryn dipyn llai na nifer sydd wedi'u gwerthu.

O ran yr anfanteision, teimlai'r cyfranogwyr fod mwy o angen tai cymdeithasol yn awr nag erioed o'r blaen o ystyried faint o bobl ar yr ynys sydd â chontractau dim oriau ac, felly, mae'n amhosibl iddynt gael morgais neu fanteisio ar y cynllun Cymorth i Brynu: "Mae cyflogau ar Ynys Môn yn isel iawn". Ar gyfartaledd, mae pobl yn ynys yn ennill £14,000 y flwyddyn, sy'n llai na'r hyn sydd ei angen i brynu tŷ fforddiadwy.



Roedd pob un o'r 12 cyfranogwr yn croesawu'r Bil a'i gynigion.

O'r cartrefi a brynwyd o dan y cynllun, mae'r rhan fwyaf yn awr yn rhan o'r sector rhentu preifat ac mae'r rhenti'n "afresymol". Mae hyn hefyd effeithio ar nifer y tai â chymorth sydd ar gael.

Soniodd un tenant am brofiad ei mam o arfer ei Hawl i Brynu, ar ôl byw yn yr eiddo am dros 20 mlynedd gyda'r bwriad o'i adael i'w phlant. Roeddent yn teimlo bod hon yn sefyllfa wahanol, ac mewn ffordd, yn cefnogi dadleuon y rhai a oedd o blaid yr Hawl i Brynu: "Os oes siawns y byddai'r tŷ'n cael ei werthu, byddai angen i ni fod yn glir y byddai'n rhaid ei werthu'n ôl i'r cyngor, neu y byddai'n cael ei drosglwyddo i'r perthynas agosaf".

Teimlai'r tenantiaid y byddai pobl yn croesawu'r syniad pe bai'r amod / cyfamod cyfyngu hwn yn cael ei gynnwys wrth arfer yr Hawl i Brynu. Teimlwyd bod y polisi wedi troi'n gynllun i "wneud arian" yn hytrach na'n ffordd i bobl brynu ac aros yn eu cartrefi.

- A ymgynghorwyd â'r tenantiaid yn ddigonol ynghylch y cynigion hyn? (Ymatebodd Tenantiaid Cymru a TPAS i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn yn 2015 gan ddweud na chafwyd digon o amser i ymgysylltu'n briodol â thenantiaid)

Teimlai'r cyfranogwyr fod y cyngor wedi ymgynghori â nhw ynghylch atal y cynllun. Eglurodd un cyfranogwr sut roedd wedi ymgysylltu â thenantiaid ar hyd a lled yr ynys, gan gynnwys ysgolion uwchradd.

Safbwyntiau ar atal yr Hawl i Brynu a Hawl Cysylltiedig

- A yw atal y cynllun Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig yn well na'i diddymu? (a fydd yn rhoi digon o amser i gynghorau a chymdeithasau tai adeiladu rhagor o gartrefi newydd?)
- A ddylid rhoi cyfle i weld beth fydd effaith y penderfyniad i atal y cynllun? (dim ond ychydig flynyddoedd yn ôl y cafodd ei atal am y tro cyntaf)
- A ddylai tenantiaid mewn ardaloedd lle mae'r cynllun Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig wedi'i hatal gael cyfle arall i brynu eu cartrefi cyn diddymu'r cynlluniau hyn?

Yn ystod y cyfnod y bu ar waith, roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod y penderfyniad i atal y cynllun wedi gweithio / helpu i ddechrau cynyddu'r stoc. Awgrymodd un



cyfranogwr y gellid ymestyn y gwaharddiad i 10 mlynedd (yn hytrach na phump), ond ni fyddai hynny'n gwarantu y gellid cynyddu'r stoc. Mae'r Hawl i Brynu, yn ôl rhai o'r cyfranogwyr, wedi creu "ystadau cymysg" o dai cymdeithasol a thai preifat ac mae hynny wedi effeithio ar ddynamig y gymuned.

Trafododd y grŵp brosiect Wylfa B. Maent eisoes yn gweld bod landlordiaid preifat yn ceisio elwa'n ariannol drwy fanteisio ar weithwyr, ac roedd pryder difrifol y byddai hyn yn effeithio ar dai cymdeithasol. Teimlai rhai cyfranogwyr bod perygl ynghlwm wrth gyflwyno'r Bil yn awr gan y gallai rhai tenantiaid benderfynu arfer eu Hawl i Brynu a defnyddio'r eiddo wedyn i'w osod i weithwyr prosiect Wylfa B.

Roedd pob un o'r cyfranogwyr yn cytuno o ran egwyddor y dylid atal y cynllun ond roedd wyth o'r deuddeg o blaid ei ddiddymu ar unwaith. Esboniodd un cyfranogwr ei fod mewn sefyllfa i brynu ei gartref ar hyn o bryd, ar ôl cael swydd amser llawn, ond roedd y penderfyniad i atal y cynllun wedi ei rwystro rhag gwneud hynny a'i ddymuniad oedd aros yno.

Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig

- A ddylid diddymu'r cynlluniau hyn a pham?
- Faint o rybudd y dylid ei roi cyn iddynt gael eu diddymu? (Caiff y rhan fwyaf o denantiaid 12 mis o rybudd)
- A yw'n briodol pennu cyfnod byrrach yn achos tenantiaid sydd newydd ddechrau rhentu neu yn achos tai sydd newydd eu hadeiladu? (sef dau fis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol)
- Sut y dylai tenantiaid gael gwybod am y newidiadau? (a yw tenantiaid yn hyderus y bydd eu landlordiaid yn trosglwyddo'r wybodaeth i'r holl denantiaid)

Yn gyffredinol, roedd y cyfranogwyr yn teimlo y dylid diddymu'r cynlluniau, ond roeddent yn croesawu'r cynnig i'w hatal. Roeddent yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda iawn gan y Cyngor ac, o ran cyflwr tai cymdeithasol, ym marn un cyfranogwr, nid oedd wedi gweld yr un tî cymdeithasol mewn cyflwr gwael erioed, ond yn y sector rhentu preifat, roedd rhai mewn "cyflwr ofnadwy". Esboniodd cynrychiolwyr y Cyngor sut roeddent yn awyddus i roi mwy o gymorth i bobl ifanc a, drwy gyflwyno newidiadau, datblygu mwy o dai cymdeithasol sy'n addas ar gyfer pobl ifanc – yn



enwedig o gofio bod eu gallu i hawlio budd-daliadau'n newid. Mae tua 20 o bobl yn cael eu hychwanegu at y rhestr aros am dai cymdeithasol ar yr ynys bob wythnos.

Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod y cyngor yn ymgynghori â nhw, ond nad oedd nifer o'r rhai sy'n cael eu hethol i swyddi cyhoeddus yn deall sut roeddent yn byw o ddydd i ddydd. Mae rhywfaint o gynrychiolaeth yn y cyngor, ond y grŵp ffocws hwn oedd y cyfle cyntaf iddynt i ymgysylltu â gwleidyddion ar y lefel hon, ac roeddent yn croesawu'r cyfle.

Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn teimlo nad oedd angen y cyfnod o 12 mis i arfer eu Hawl i Brynu, ac y dylai'r Bil fod yn weithredol cyn gynted ag y byddai'n cael ei basio.



Carl Sargeant AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L-CS-0361-17

John Griffiths AC

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

22nd Mai 2017

Annwyl John

BIL DIDDYMU'R HAWL I BRYNU A HAWLIAU CYSYLLTIEDIG (CYMRU)

Diolch am eich llythyr dyddiedig 12 Mai yn dilyn fy llythrau diweddar ynghylch Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru).

Yn eich llythyr, roeddech yn gofyn am ragor o eglurhad am nifer o faterion cyn fy sesiwn dystiolaeth ar 25 Mai. Rwy'n nodi manylion ychwanegol isod.

Ymgynghori

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynnig i ddiddymu'r hawl i brynu ar hyd a lled Cymru, gan gynnwys yr holl ardaloedd hynny y mae'r hawl i brynu wedi'i hatal dros dro.

Cynhaliwyd ymgynghoriad pwysig Llywodraeth Cymru ar y cynigion a oedd yn ymwneud â'r Hawl i Brynu a hawliau cysylltiedig drwy'r Papur Gwyn ar Dai, sef 'Dyfodol yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael', rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2015. Cafodd y Papur Gwyn ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a'i anfon at amrediad o randdeiliaid, gan gynnwys sefydliadau a oedd yn cynrychioli landlordiaid, tenantiaid a'r trydydd sector. Fel sydd wedi'i nodi yn Rhan 1 (4) o'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil, cafodd 94 o ymatebion eu derbyn gan amrediad eang o ymatebwyr, a oedd yn cynnwys 30 o ymatebion gan denantiaid i landlordiaid cymdeithasol.

Yn ychwanegol at hynny, cynhaliwyd sesiynau ar gyfer rhanddeiliaid rhwng mis Medi 2015 a mis Chwefror 2016. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys sefydliadau a oedd yn cynrychioli tenantiaid a Shelter Cymru. Roedd Tenantiaid Cymru wedi pwysleisio'r angen am gyflenwad digonol o dai rhent cymdeithasol i ddiwallu anghenion y rhai hynny na allant fforddio caffael cartref drwy'r farchnad dai. Gyda chefnogaeth sefydliadau a oedd yn cynrychioli tenantiaid (Tenantiaid Cymru a TPAS Cymru), cafodd y ddyletswydd i wybodaeth gael ei hanfon at bob tenant ei hychwanegu at wyneb y Bil.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd Shelter Cymru yn ffafrio galluogi tenantiaid cymwys mewn ardaloedd yr oedd eu Hawl i Brynu/Gaffael wedi'u hatal i gael un cyfle i brynu eu cartrefi cyn i'r hawliau hynny gael eu diddymu. I'r gwrthwyneb i hynny, roeddent hefyd, ynghyd â sefydliadau a oedd yn cynrychioli tenantiaid, yn cefnogi defnyddio Mesur 2011.

Mae'r Mesur yn gofyn i awdurdodau lleol ymgynghori â rhanddeiliaid fel rhan o'r broses o wneud cais am atal yr hawliau dros dro, gan gynnwys cyrff sy'n cynrychioli buddiannau tenantiaid yn ardal yr awdurdod, a phersonau eraill sy'n ymddangos yn briodol yn ôl yr awdurdod.

Er mwyn i'r hawl i brynu gael ei hatal dros dro, rhaid i awdurdod lleol gael tystiolaeth fod y galw am dai cymdeithasol yn fwy o lawer na'r cyflenwad, neu'n debygol o fod, a bod y cydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw yn debygol o gynyddu fel canlyniad i arfer yr hawl i brynu.

Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol – Ardaloedd y mae'r hawliau wedi'u hatal dros dro ynddynt

Nid yw'r Llywodraeth o'r farn bod meddiant gan denantiaid yn yr ardaloedd y mae'r hawl i brynu wedi'i hatal dros dro ynddynt, at ddibenion Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (A1P1).

Fodd bynnag, rydym yn fodlon, hyd yn oed pe bai A1P1 yn berthnasol, y byddai darpariaethau'r Bil, o ran eu bod yn gweithio yng nghyd-destun ardaloedd y mae'r hawliau wedi'u hatal ynddynt, yn cydymffurfio â hawliau'r Confensiwn mewn perthynas ag A1P1 a thenantiaid.

Mae'r darpariaethau yn y Bil wedi'u cynllunio i roi'r polisi o derfynu'r hawl i brynu ar waith, ac o wneud hynny, rydym yn fodlon bod y cynigion yn cydymffurfio â hawliau'r Confensiwn. Nid yw hynny'r un fath â dweud bod y cynigion yn y Bil, yn enwedig mewn perthynas â'r cyfnod o flwyddyn cyn i'r hawliau gael eu diddymu, yn anghenrheidiol i'r Bil gydymffurfio â hawliau'r Confensiwn.

Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf

Mae A1P1 yn darparu bod gan bob bod dynol neu berson cyfreithiol yr hawl i fwynhau eu meddiannau yn heddychlon. Ni chaiff meddiannau eu cymryd oddi ar neb, ac eithrio er budd y cyhoedd, ac yn unol ag amodau a ddarperir amdanynt o dan y gyfraith ac yn unol ag egwyddorion cyffredinol cyfraith ryngwladol. Nid yw hynny'n atal gwladwriaeth rhag gorfodi'r cyfreithiau hynny y mae'n ystyried bod eu hangen i reoli'r defnydd o eiddo yn unol â buddion cyffredinol. Wrth ystyried a yw ymyrryd ag eiddo person yn cydymffurfio ag A1P1, y prawf cyffredinol yw:

- a gymerir y camau er mwyn cyflawni nod cyfreithlon er budd y cyhoedd;
- a yw'r camau a gymerir yn rhesymol a chymesur ac ar drywydd cyflawni'r nod hwnnw; ac
- a ydynt yn sicrhau'r 'cydbwysedd teg sydd ei angen' rhwng y partïon sy'n cael eu heffeithio (gweler *Mellacher v Awstria* (1989) Siarter Hawliau Dynol Ewrop 10522/83).

Wrth sefydlu nod cyfreithlon, mae gan wladwriaethau derfynau eang ym maes cyfiawnder cymdeithasol, gan gynnwys tai cymdeithasol (gweler *James v y DU* [1986] Siarter Hawliau Dynol Ewrop 8793/79).

Y nod cyfreithlon cyhoeddus yw diogelu'r stoc o dai cymdeithasol. Er y gallai cynigion y Bil effeithio ar denantiaid presennol yn uniongyrchol, bwriedir i'r polisi fod o fudd i denantiaid presennol, tenantiaid sydd ar restrau aros ar y pryd, pobl ddigartref ac unrhyw unigolion a allai fod angen dibynnu ar y stoc o dai cymdeithasol yn y dyfodol.

Er bod tenantiaid mewn ardaloedd y mae'r hawl i brynu wedi'i hatal dros dro ynddynt, a thenantiaid mewn ardaloedd y mae modd arfer yr hawl i brynu ynddynt o hyd, fel y nodwyd uchod, os bydd yr hawl i brynu eisoes wedi'i hatal dros dro, byddai'r awdurdodau lleol wedi gorfod dangos bod pwysau mawr o ran tai ac anghydbwysedd sylweddol o ran y cyflenwad a'r galw. Cyn atal yr hawliau dros dro, byddai angen ymgynghori â'r tenantiaid, a byddent wedi cael y cyfle i brynu eu cartrefi.

Bydd awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, yn yr ardaloedd hynny y mae'r hawliau wedi'u hatal ynddynt, wedi datblygu cynlluniau busnes ar sail hynny, ac wedi cymryd camau i roi'r cynlluniau hynny ar waith a sicrhau bod tai cymdeithasol ar gael i'r rhai hynny sydd eu hangen fwyaf. Gallai'r broses o wrthdroi atal yr hawliau dros dro olygu eu bod yn anwybyddu (er dros dro) y ffaith fod pwysau mawr yn bodoli ar gyfer cartrefi.

Rhaid hefyd ystyried cynigion y Bil yn y cyd-desun ehangach. Ni fydd terfynu'r hawl i brynu yn effeithio ar hawliau tenantiaid i feddiannu eu cartrefi; bydd diogelwch deiliadaeth a rhenti fforddiadwy gan denantiaid o hyd, a byddant yn elwa ar y buddsoddiad gan landlordiaid i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru. Yn ogystal, mae nifer o gamau eraill yn cael eu cymryd gan y Llywodraeth i wella'r gallu i gael cartref ar ffurf amrywiaeth o ddeiliadaethau, er enghraifft Cymorth i Brynu - Cymru, a Cymorth Prynu. Mae'r Llywodraeth a landlordiaid cymdeithasol yn buddsoddi hefyd mewn stoc newydd o dai cymdeithasol a fydd yn cael ei diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy gael gwared ar y rhwymedigaeth ar landlord i werthu eu hasedau am bris gostyngol.

Mae asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a hawliau plant (a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru) hefyd yn dangos effaith gadarnhaol fel canlyniad i'r Bil, ac mae'r cynigion yn y Bil yn cydymffurfio'n llawn ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2016.

I grynhoi, mae'r Llywodraeth yn fodlon bod holl gynigion y Bil, gan gynnwys eu heffaith ar denantiaid mewn ardaloedd sy'n atal yr hawliau dros dro ac mewn ardaloedd eraill, ar drywydd nod cyfreithlon er budd y cyhoedd, ac yn rhesymol a chymesur er mwyn cyflawni'r nod hwnnw, ac yn sicrhau'r cydbwysedd teg sydd ei angen. Felly, mae'r Llywodraeth o'r farn bod darpariaethau'r Bil yn gyson â hawliau'r Confensiwn ac o fewn cymhwysedd y Cynulliad.

Erthygl 14

Mae erthygl 14 yn darparu'r canlynol, *“the enjoyment of the rights and freedoms set forth in this European Convention on Human Rights shall be secured without discrimination on any ground such as sex, race, colour, language, religion, political or other opinion, national or social origin, association with a national minority, property, birth or other status”*. Nid yw erthygl 14 yn darparu hawl annibynnol i anwahaniaethu, ond mae'n datgan bod angen sicrhau holl hawliau eraill y Confensiwn heb unrhyw wahaniaethu. Fel y nodwyd eisoes, mae'r Llywodraeth o'r farn nad yw A1P1 yn berthnasol mewn perthynas â thenantiaid mewn ardaloedd y mae'r hawliau wedi'u hatal dros dro ynddynt, ac felly ar sail hynny nid yw erthygl 14 yn berthnasol ychwaith. Fodd bynnag, hyd yn oed pe bai erthygl 14 yn berthnasol, nid yw'r Llywodraeth o'r farn y byddai gwahaniaethu ar sail unrhyw un o'r rhesymau a restrir. Beth bynnag, nid yw amgylchiadau tenantiaid yn y gwahanol ardaloedd yn cyfateb.

Roedd gan yr Alban ardaloedd yr oedd yr hawl i brynu wedi'i hatal dros dro cyn y diddymiad a gafodd ei roi ar waith yn 2016. Nid oedd yr ataliadau dros dro wedi'u gwrthdroi cyn y diddymiad. Rwy ar ddeall, na fu unrhyw gŵyn ffurfiol ar seiliau Hawliau Dynol yn yr Alban.

Tenantiaid mewn ardaloedd y mae'r hawliau wedi'u hatal ynddynt - y disgwyliad cyfreithlon

Cynhaliwyd ymgynghoriad eang mewn perthynas â diddymu'r hawl i brynu, a chafodd y polisi ei gynnwys ym maniffesto'r blaid Lafur a Phlaid Cymru cyn yr etholiad ym mis Mai 2016. Nid ydym o'r farn y gallai tenantiaid ddisgwyl ei bod yn rhesymol y byddai'r ataliadau dros dro yn dod i ben cyn y diddymiad.

Gall cyfarwyddyd sy'n atal yr hawl i brynu dros dro mewn ardal o dan Fesur Tai (Cymru) 2011 bara pum mlynedd yn y lle cyntaf, a gellir estyn y cyfnod hwnnw i ddeg mlynedd. Mae pob cais i atal yr hawl i brynu dros dro wedi bod am gyfnod o bum mlynedd hyd yn hyn.

Cafodd diddymu'r hawl i brynu ei gynnwys ym maniffesto'r Blaid Lafur a maniffesto Plaid Cymru cyn etholiad y Cynulliad yn 2016. Nid yw'r Llywodraeth wedi gwneud addewid na chyflwyno achos ar unrhyw adeg y byddai ataliadau dros dro yn cael eu gwrthdroi cyn y diddymiad. Felly, o ystyried cyhoeddusrwydd eang cynigion y Llywodraeth i ddiddymu'r hawl i brynu, a'r ymgynghoriad arnynt, nid ydym o'r farn y gallai tenantiaid ddweud ei bod yn rhesymol disgwyl y bydd ataliadau dros dro'n cael eu gwrthdroi cyn y diddymiad (p'un ai a yw hynny ar ôl pum mlynedd, neu ddeg mlynedd, os yw'r cyfnod yn cael ei estyn), ac y byddai cyfle i arfer yr hawl i brynu ar gael y pryd hwnnw.

Adolygiad Barnwrol

Ni allwn wneud sylwadau ar y camau y gallai unigolion eu cymryd wrth gyflwyno unrhyw achos ar gyfer yr adolygiad barnwrol. Mater i'r unigolion hynny yw hwnnw. Fodd bynnag, gallwn bwysleisio ein bod yn ystyried bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, a'i fod yn cydymffurfio â hawliau'r Confensiwn os ydynt yn berthnasol.

"Stoc tai a osodwyd yn flaenorol"

Diolch am eich sylwadau mewn perthynas ag adrannau 2 a 4 o'r Bil. Rydym yn gwerthfawrogi bod y darpariaethau hyn yn rhai cymhleth a bod y Llywodraeth wedi ceisio eu drafftio mor syml ag sy'n bosibl. Fodd bynnag, mae rhai cyfyngiadau oherwydd bod angen ymdrin â chymhlethdodau deddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli, â chymhlethdodau sy'n codi'n arbennig mewn perthynas â'r hawl i brynu a gadwyd, ac oherwydd bod angen llunio rhai eithriadau i'r rheol gyffredinol sy'n cyfyngu'r hawl i brynu.

Roeddem wedi ystyried geirio'r adrannau hyn drwy gyfeirio at 'stoc tai a osodir am y tro cyntaf', ac a dweud y gwir, cafodd drafft cynharach o'r Bil ei gynhyrchu ar sail y geiriad hwnnw. Roedd y diffiniad 'stoc tai a osodir am y tro cyntaf' yn cyfeirio o hyd at stoc nad oedd o anghenraid yn 'stoc tai a oedd eisoes yn bodoli', hynny yw 'stoc tai a osodwyd yn flaenorol'. Felly, nid oedd yn bosibl i osgoi'r cysyniad yn gyfan gwbl. Yn ychwanegol at hynny, roedd ymdrin â chymhlethdodau'r eithriad a'r hawl i brynu a gadwyd yn gymhleth yn gysyniadol oherwydd y geiriad hwnnw. Felly, am y rhesymau hynny, mabwysiadwyd y geiriad arall yn y Bil.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol ac edrychaf ymlaen at fynd i gyfarfod y Pwyllgor ar 25 Mai.

Yn gywir

A handwritten signature in cursive script that reads "Carl Sargeant". The signature is written in black ink on a white background.

Carl Sargeant AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children

Eitem 5.5

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-17-17 Papur 9/ Paper 9

Carl Sargeant AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

26 Mai 2017

Annwyl Carl,

Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

Diolch i chi am ddod i'r sesiwn dystiolaeth ar 25 Mai ynghylch Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) ('y Bil').

Yn ystod y sesiwn hon, gwnaethoch gytuno i ysgrifennu at y Pwyllgor gyda'r wybodaeth a ganlyn:

- faint o eiddo sy'n debygol o gael ei effeithio gan y cyfyngiadau arfaethedig ar anheddau sydd newydd eu gosod; a
- manylion y broses ymgynghori cyn cyflwyno'r Bil.

Yn dilyn y sesiwn, cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch yn gofyn am eglurhad ar y materion a ganlyn er mwyn helpu i lywio'r broses o ddrafftio'r adroddiad:




Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

- pa waith modelu sydd wedi'i wneud o ran yr effaith debygol ar werthu stoc tai cymdeithasol wrth bennu hyd y cyfnod rhybudd;
- a oes unrhyw dystiolaeth wedi'i chasglu ar gynnydd sydyn mewn gwerthu eiddo mewn ardaloedd lle mae'r hawl i brynu a'r hawl i gaffael wedi cael eu hatal; a'r
- goblygiadau ymarferol i Lywodraeth Cymru o godi'r cyfyngiadau mewn ardaloedd lle mae'r hawl i brynu a'r hawl i gaffael eisoes wedi'u hatal.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 9 Mehefin 2017 fan bellaf.

Yn gywir



John Griffiths AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P-MD-1844-17

John Griffiths AC

Cadeirydd, y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd

CF99 1NA

23 Mai 2017

Annwyl John

Rwyf yn ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr 26 Cymru yn gofyn pa sylwadau y byddwn yn eu cyflwyno i Lywodraeth y DU i sicrhau bod amddiffyn hawliau dynol yn ganolog i negodiadau Brexit.

Fel Llywodraeth rydym wedi bod yn ddiamwys yn ein hymrwymiad i gadw'r amddiffyniadau cymdeithasol sy'n ymwneud â hawliau dynol ac yn ehangach sy'n deillio o'n haelodaeth â'r UE. Rydym yn rhannu pryder y Pwyllgor bod perygl y bydd y broses o dynnu'n ôl o'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys y bwriad gan Lywodraeth bresennol y DU i beidio â throsi'r Siarter Hawliau Sylfaenol yn gyfraith y DU, yn gwanhau'r fframwaith cyfreithiol hawliau dynol yn y DU.

Roedd gwarchod amddiffyniadau cymdeithasol yn un o'r chwe blaenoriaeth yn ein Papur Gwyn *Sicrhau Dyfodol Cymru*, ac rwyf wedi pwysu ar Lywodraeth y DU ynghylch y rhain yng nghyfarfodydd Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (negodiadau'r UE) ac mewn trafodaethau dwyochrog â Llywodraeth y DU. Yn enwedig, rydym wedi'i gwneud yn glir y byddai Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw ymdrechion i dynnu yn ôl o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 72

Dangosodd Llywodraeth bresennol y DU rai arwyddion ei bod yn cydnabod y flaenoriaeth yr ydym yn ei rhoi ar hyn gyda'i Phapur Gwyn "Legislating for the United Kingdom's Withdrawal from the European Union" sy'n datgan: "The UK's withdrawal from the EU will not change the UK's participation in the ECHR and there are no plans to withdraw from the ECHR." Er hynny, fel yr amlinellir uchod, mae gennym bryderon dwys iawn am fwriadau Llywodraeth bresennol y DU mewn perthynas â'r Siarter Hawliau Sylfaenol.

Bydd ein hymrwymiad i hawliau dynol ac amddiffyniadau cymdeithasol eraill yn rhan hollbwysig o'r trafodaethau a gawn gyda darpar Lywodraeth y DU ar ôl yr Etholiad Cyffredinol. Ar hyn o bryd, cyn yr etholiad, nid oes modd pennu union natur neu ffurf y trafodaethau hyn ond byddwn yn parhau i wneud ein gorau glas i sicrhau nad yw'r hawliau sydd gan bobl Cymru ar hyn o bryd yn cael eu gwanhau oherwydd ymadawiad y DU â'r UE.

Yn gywir



Mark Drakeford AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

Mark Drakeford AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L-MD-0359-17

John Griffiths AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

23 Mai 2017

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Ebrill, yn gofyn am eglurhad o rai materion yn ymwneud â'r Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad*, yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 29 Mawrth.

Ceir rhagor o wybodaeth ac eglurhad isod ynghylch y pum mater dan sylw, yn yr un drefn â'ch llythyr.

Wrth i awdurdodau lleol benderfynu a ddylid newid eu systemau pleidleisio a defnyddio pleidlais sengl drosglwyddadwy yn hytrach na'r cyntaf i'r felin, rwy'n disgwyl iddynt drafod gyda'u dinasyddion a chymryd eu barn i ystyriaeth. Bydd y penderfyniad terfynol yn fater i gyfarfod cyngor llawn yr awdurdod lleol, ar ôl ystyried barn pob un dan sylw, gan gynnwys y trigolion lleol. Yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar ar y Papur Gwyn, rwyf wrthi'n ystyried a ddylai hyn fod yn ddibynnol ar fwyafrif syml neu ddwy ran o dair. Dwy ran o dair yw'r trothwy sydd ei angen i ddiwygio system etholiadol y Cynulliad Cenedlaethol ei hun.

O ran gwneud newidiadau i'r system etholiadol yn orfodol, rwy'n credu y dylai awdurdodau lleol, fel y Cynulliad Cenedlaethol, gael y cyfle i ystyried eu trefniadau etholiadol eu hunain. Rydw i am i awdurdodau lleol gael y dewis. Mae'r Papur Gwyn yn cynnig caniatáu i awdurdodau lleol wneud y penderfyniad sy'n addas iddyn nhw, yn eu cyd-destun eu hunain.

Bydd Deddf Cymru 2017 yn ein galluogi i foderneiddio trefniadau etholiadol llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys rhoi'r bleidlais i bobl ifanc 16 ac 17 oed a gwella trefniadau cofrestru etholwyr a phleidleisio. Byddwn yn ymgynghori'n fanylach ar hyn yn ystod yr haf.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu hyblygrwydd i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gydweithio â'i gilydd ar draws ardaloedd ehangach, gyda phwerau i uno'n ffurfiol a chydweithio ar draws ystod eang o weithgareddau. Wrth iddi ddod yn ofynnol i awdurdodau lleol weithio'n gynyddol ar sail ranbarthol, bydd goblygiadau i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus - o ran eu trefniadau eu hunain a'r ffordd maent yn ymwneud â'r trefniadau newydd. Byddwn yn ystyried a thrafod hyn ymhellach wrth i ni ddatblygu'n cynigion ar gyfer gweithio'n rhanbarthol.

Roeddech yn gofyn am eglurhad ynghylch cymhwysedd staff i gael taliadau diswyddo os cânt eu diswyddo gan awdurdod lleol yn sgil cyfuno gwasanaethau i drefniadau clwstwr ar draws awdurdodau lleol, ond eu bod yna'n cael eu penodi i swydd gyffelyb yn y gwasanaeth rhanbarthol cyfunol.

Awdurdodau lleol, fel y cyflogwr, sydd i benderfynu ar achosion unigol dan y ddeddfwriaeth berthnasol. Rwy'n disgwyl i awdurdodau lleol gydweithio'n agos gydag undebau llafur wrth ddatblygu trefniadau i gyfuno gwasanaethau, gan roi ystyriaeth lawn i'r goblygiadau cyflogaeth. Mewn achosion blaenorol o rannu neu gyfuno gwasanaethau, gwelwyd awdurdodau lleol yn trosglwyddo staff yn hytrach na diswyddo unigolion, gan ddefnyddio egwyddorion TUPE (Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006).

Hefyd, dan y Gorchymyn Taliadau Dileu Swydd (Parhad Cyflogaeth mewn Llywodraeth Leol, etc.) (Addasiad) 1999 (sydd ar gael yn Saesneg yn unig), os yw gweithiwr sydd wedi cael rhybudd diswyddo yn derbyn cynnig swydd gan gorff arall sydd wedi'i restru yn y gorchymyn - yn yr achos hwn, awdurdod lleol arall - cyn i'w swydd ddod i ben, gan gychwyn ar y swydd o fewn pedair wythnos i ddiwedd yr hen swydd, ni fydd yn gymwys i gael taliad diswyddo. Os bydd gweithiwr yn cymryd swydd newydd gyda chorff o'r fath dan yr amgylchiadau hyn, bydd y darpariaethau yn ymwneud â chyfnod prawf yn y Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 yn berthnasol. Felly os bydd y gweithiwr yn penderfynu peidio parhau gyda'r swydd yn ystod y pedair wythnos gyntaf, bydd modd dod â'r contract i ben (boed gyda neu heb rybudd) a derbyn taliad diswyddo oddi wrth y cyn gyflogwr.

Mae Deddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015 yn ei gwneud yn bosib adennill taliadau ymadael a wnaed i weithwyr sy'n ennill dros £80,000 sy'n dychwelyd i'r sector cyhoeddus o fewn 12 mis i gael eu diswyddo. Mae rheoliadau i ddod â hyn i rym wedi bod yn destun ymgynghoriad Trysorlys ei Mawrhydi, ond heb gael eu cwblhau eto.

In gywir,

Mark.

Mark Drakeford AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a
Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

25 Mai 2017

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-17-17 Papur 11 Paper 11

Annwyl John

Deisebau sy'n cael eu trafod gan y Pwyllgor Deisebau ar hyn o bryd

Rwy'n awyddus ein bod yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i bobl a sefydliadau sy'n cyflwyno deisebau i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Yn yr ysbryd hwn, a dyhead i gefnogi cydweithio rhwng pwyllgorau'r Cynulliad, rwy'n ysgrifennu atoch i rannu gwybodaeth am y deisebau rydym yn eu trafod ar hyn o bryd sy'n ymwneud â phynciau o fewn cylch gwaith eich Pwyllgor.

Mae'r rhestr gyfredol i'w gweld yn atodiad i'r llythyr hwn.

Os yw unrhyw un o'r deisebau yn berthnasol i'ch rhaglen waith gyfredol, bydd o gymorth i ni yn ein trafodaethau pe allwch chi, neu'ch tîm clericio, roi gwybod i ni. Byddwn yn fwy na bodlon rhoi rhagor o wybodaeth i chi am unrhyw un o'r deisebau hyn.

Yn gywir





Mike Hedges AC
Cadeirydd



Atodiad

P-04-519	<u>Diddymu Taliadau Comisiwn wrth Werthu Cartrefi mewn Parciau</u>
P-05-711	<u>Sicrhau bod Anghenion Pobl Anabl am Addasiadau i Dai yn cael eu Diwallu'n Ddigonol</u>
P-05-723	<u>Sefydlu System Bleidleisio Cynrychiolaeth Gyfrannol ar gyfer Etholiadau Cynghorau Lleol Cymru.</u>
P-05-726	<u>Rhoi Rhyddhad Ardrethi i Awdurdodau Lleol ar gyfer Cyfleusterau Hamdden a Diwylliannol</u>
P-05-734	<u>Gwahardd Codi Ffioedd Asiant Gosod ar Denantiaid</u>
P-05-742	<u>Peidiwch â gadael i Forsythia gau!</u>
P-05-761	<u>Mynnu cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi Autism Spectrum Connections Cymru</u>

